WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Wales Audit Office / Swyddfa Archwilio Cymru

24 Cathedral Road / Heol y Gadeirlan
Cardiff / Caerdydd
CF11 9LJ
Tel / Ffôn: 029 20 320500
Fax / Ffacs: 029 20 320600
Email / Ebost: wales@wao.gov.uk
www.wao.gov.uk

Mr S Smith
Prif Swyddog Tân
Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru
Pencadlys
Ffordd Salesbury
Parc Busnes Llanelwy
Llanelwy
LL17 OJJ

| | |
|---|---|
| **Dyddiad** | 20 Medi 2013 |
| **Ein cyfeirnod** | 527A2013 |
| **Tudalennau** | **1** o **8** |

Annwyl Simon

## Asesiad Gwella

Mae'n ofynnol i mi, o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur), gyflwyno adroddiad ar fy ngwaith archwilio ac asesu ynghylch a yw Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) wedi cyflawni ei ddyletswyddau ac wedi bodloni gofynion y Mesur.

Mae'r llythyr hwn yn crynhoi:

- fy marn ynghylch a yw'r Awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau statudol mewn perthynas â chynllunio gwelliant;
- fy marn ar gydymffurfiaeth yr Awdurdod â'r gofynion i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus, yn seiliedig ar waith a wnaed hyd yma gan Swyddfa Archwilio Cymru, gan gynnwys:
  - unrhyw faterion perthnasol a all fod wedi dod i'r amlwg ers fy adroddiad diwethaf;
  - cynnydd yr Awdurdod mewn perthynas â meysydd i'w gwella ac argymhellion a nodwyd yn fy asesiadau blaenorol.
- fy nghynigion pellach ar gyfer gwella a/neu argymhellion;
- diweddariadau i gynllun gwaith ac amserlen Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer cyflawni fy ngwaith ar yr Asesiad Gwella.

Byddaf yn diweddaru fy safbwyntiau yn ystod y flwyddyn ac yn anfon llythyr arall erbyn diwedd mis Ionawr 2014.

## Mae'r Awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau o ran cynllunio gwelliant o dan y Mesur ac wedi gweithredu yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru

Deuthum i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

- Cafodd y Cynllun Gwella ei gyhoeddi yn unol ag amserlen Llywodraeth Cymru (i'w gyhoeddi erbyn 31 Mawrth 2013 ar gyfer amcanion gwella 2013-14) ar wefan yr Awdurdod.
- Mae'r Awdurdod wedi rhoi esboniad ynghylch pam y cafodd ei ddau amcan gwella eu dewis ar gyfer 2013-14 gan gynnwys cyfeiriad at lefelau gweithgarwch a'r hinsawdd economaidd. Mae'r ddau amcan gwella yn barhad o'r amcanion a bennwyd ar gyfer 2012-13 a'u nod yw:
  – helpu i gadw pobl a chymunedau yn ddiogel drwy atal marwolaethau ac anafiadau o danau damweiniol mewn llety preswyl;
  – canfod ffyrdd o leihau costau cyffredinol rhedeg y Gwasanaeth bob blwyddyn er mwyn gweithredu o fewn y gyllideb flynyddol.
- Mae pob un o'r amcanion gwella yn rhoi disgrifiad o'r canlyniad a ddisgwylir, y camau sydd eu hangen i gyflawni'r gwelliannau. Mae mesurau i ddangos cyflawniad wedi'u pennu ar gyfer amcan gwella un. Mae'r Awdurdod yn dal i ystyried mesurau addas a sut i gysylltu'r trefniadau presennol ar gyfer cyflwyno adroddiadau ariannol ar gyfer amcan gwella dau.
- Nodir y camau sydd eu hangen i gyflawni'r amcanion gwella mewn cynlluniau busnes adrannol a gaiff eu monitro'n fisol gan uwch reolwyr.
- Cynhaliodd yr Awdurdod ymgynghoriad ar ei amcanion gwella yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru.

## Ar sail gwaith a wnaed hyd yma gan Swyddfa Archwilio Cymru, ac yn gyfyngedig iddo, credaf fod yr Awdurdod yn debygol o gydymffurfio â'r gofyniad i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus yn ystod y flwyddyn ariannol hon

Rwyf wedi dod i'r casgliad hwn oherwydd:

**Mae trefniadau cynllunio busnes wedi'u hymgorffori'n dda, maent yn darparu darlun clir o'r camau arfaethedig ac yn canolbwyntio ar ganlyniadau ar y cyfan ond mae angen iddynt adlewyrchu'n fwy penodol ofynion Deddf Cydraddoldeb newydd 2010.**

Nodais, yn fy asesiadau blaenorol, fod arweinwyr yr Awdurdod yn parhau i lywio newid a dyma yw fy marn o hyd.

Mae staff yn ymwybodol o'r amcanion gwella ar gyfer 2013-14 ac maent yn cefnogi'r rhesymeg dros gario ymlaen â'r amcanion a bennwyd ar gyfer 2012-13. Ceir dealltwriaeth gyffredin mai'r amcanion hyn yw'r materion sy'n hanfodol i'r Awdurdod wrth symud ymlaen. Mae'r Awdurdod wedi rhoi manylion ei Amcanion Gwella i randdeiliaid a'r cyhoedd yn ei gynllun Cyfunol ar gyfer Gwella a Lleihau Risgiau ar gyfer 2013-14 y mae fersiwn electronig ohono ar gael ar wefan yr Awdurdod. Sicrhawyd ei fod ar gael i'r cyhoedd graffu arno drwy hyrwyddo'r ffaith ei fod ar gael drwy ohebiaeth e-bost uniongyrchol i randdeiliaid. Mae copïau caled ar gael ar gais. Yn y gorffennol mae'r Awdurdod wedi cynhyrchu copïau papur o Gynlluniau Gwella ond mae wedi penderfynu na ellir cyfiawnhau hyn bellach oherwydd y gost ac am resymau amgylcheddol. Mae'r Awdurdod wedi llunio gwybodaeth gryno sy'n nodi manylion y cynllun Cyfunol ar gyfer Gwella a Lleihau Risgiau.

Yn ein *Hadroddiad Gwella Blynyddol* diweddaraf (Mawrth 2013) daethom i'r casgliad, yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, fod gwerthusiadau ac adroddiadau'r Awdurdod ar ei berfformiad yn gytbwys, ond nad yw'n gwneud digon i gymharu ei berfformiad â chyrff eraill tebyg. Mae'r Awdurdod yn ystyried sut y gellir defnyddio gwell data cymharol ar y cyd â gwaith y Pwyllgor Materion Cenedlaethol. Mae data cymharol sylfaenol yn cael ei gasglu drwy ffrydiau gwaith unigol y Pwyllgor Materion Cenedlaethol a bydd ar gael wedyn i'r Awdurdodau unigol.

Nid yw'r trefniadau arferol ar gyfer cyflwyno adroddiadau ar berfformiad yn nodi'n llawn nac yn glir gynnydd i gyflawni amcanion gwella. Ar y cyfan, dangosir cynnydd drwy'r defnydd o ddangosyddion strategol a chraidd cenedlaethol Llywodraeth Cymru ynghyd â nifer fach o ddangosyddion lleol. Nid yw Amcan Gwella 2 wedi'i gysylltu'n benodol â'r trefniadau presennol ar gyfer cyflwyno adroddiadau ar reolaeth ariannol o hyd.

Cyflawnodd yr Awdurdod ei ddyletswyddau ymgynghori o dan y Mesur drwy gynnal ymgynghoriad â'r cyhoedd dros gyfnod o 12 wythnos ar ddiwedd 2012. Cafwyd tua 170 o wahanol sylwadau, safbwyntiau a chwestiynau gan tua 50 o ymatebwyr. Roedd 74 y cant o'r ymatebwyr o'r farn bod yr Awdurdod wedi nodi'r blaenoriaethau cywir ar gyfer 2013-14, cytunodd 89 y cant mai'r sylwadau a wnaed o dan y Siarter Ymateb i Danau mewn Anheddau ar gyfer Cymru Gyfan oedd y rhai cywir. Hefyd, casglodd yr Awdurdod sylwadau ar yr hyn y dylai fod yn ei ystyried fel Amcanion Gwella ar gyfer 2014-15 ac ar ôl hynny. Dadansoddwyd cynnwys yr ymatebion a chyflwynwyd adroddiad arno i Aelodau'r Awdurdod ar ddechrau 2013. Gallai'r Awdurdod ddatblygu ei weithgareddau ymgysylltu ac ymgynghori â'r cyhoedd ymhellach drwy ymestyn dulliau gweithredu llwyddiannus presennol, megis y rhai a ddefnyddir bob blwyddyn i ymgysylltu â'r myfyrwyr newydd yn ardal Bangor ynghylch diogelwch tân, i gynnwys meysydd ymgysylltu eraill.

Nid yw Asesiad cadarn o'r Effaith ar Gydraddoldeb sy'n ymdrin â'r Amcanion Gwella ar gyfer 2013-14 ar waith eto. Er bod y Cynllun Cyfunol ar gyfer Gwella a Lleihau Risgiau yn cynnwys rhywfaint o ystyriaeth o bobl â nodweddion gwarchodedig o dan ddeddfwriaeth cydraddoldeb, nid yw'r Awdurdod wedi cynnal Asesiad cadarn o'r Effaith ar Gydraddoldeb fel rhan o'r rhesymeg dros barhau â'r amcanion gwella a bennwyd yn wreiddiol ar gyfer 2012-13. Felly, nid yw'n glir a yw'r amcanion yn adlewyrchu'n ddigonol anghenion pobl o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Mae'r Awdurdod wedi nodi ar dudalen 30 o'r cynllun ei fod yn bwriadu ystyried ac adolygu'r ffactorau a all gyfrannu at y rhesymau penodol pam mae rhai pobl yn agored i dân, gan groesgyfeirio lle y bo'n briodol â'r nodweddion gwarchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, yn ystod 2013-14.

## Mae'r Awdurdod yn parhau i reoli ei heriau ariannol yn effeithiol

Yn fy *Adroddiad Gwella Blynyddol* blaenorol, deuthum i'r casgliad fod gan yr Awdurdod ddull cadarn o reoli materion ariannol ond, o ystyried maint y newid sydd ei angen, mae angen arweinyddiaeth glir. Credaf hyn o hyd. Mae'n gadarnhaol bod yr Awdurdod wedi dewis parhau â'r amcan o sicrhau rheolaeth ariannol ddarbodus fel blaenoriaeth yn ei gynlluniau Gwella ar gyfer 2013-14.

Mae'r Awdurdod yn y flwyddyn olaf (2013-14) o'i gynllun ariannol tair blynedd. Mae amcangyfrifon o'r sefyllfa ariannol ar gyfer 2014-15 a 2015-16 wedi'u cyflwyno i Aelodau'r Awdurdod ac mae'r Awdurdod wedi cydnabod bod angen iddo bellach ddatblygu Cynllun Ariannol Tymor Canolig newydd o 2013-14 ymlaen.

Dengys y rhagolwg ariannol diweddaraf ar gyfer y cyfnod tair blynedd hyd at 2013-14 fod angen i'r Awdurdod gyflawni arbedion effeithlonrwydd rhagamcanol cronnol o £2.4 miliwn.

Er bod dull y Cyngor o fynd i'r afael â'i heriau ariannol wedi bod yn gadarn ac wedi'i reoli'n dda hyd yma, erys problemau o ystyried y lleihad tebygol mewn arian canolog termau real hyd at 2016-17 a thu hwnt. Mae'r Awdurdod yn parhau i chwilio am arbedion effeithlonrwydd yn ychwanegol at y rhai sydd eisoes wedi'u nodi. Caiff peth o'r gwaith hwn ei wneud drwy'r Pwyllgor Materion Cenedlaethol a sefydlwyd yn ddiweddar a fydd yn ystyried y potensial am arbedion effeithlonrwydd a chydweithredu ar draws y tri awdurdod tân ac achub yng Nghymru. Fodd bynnag, ar hyn o bryd nid yw'r Awdurdod wedi nodi'n benodol yr arbedion a ddisgwylir o waith y Pwyllgor Materion Cenedlaethol.

## Gwneir cynnydd da i ymdrin â'r cynigion ar gyfer gwella a nodwyd yn fy asesiadau blaenorol

Cyflwynais nifer o gynigion ar gyfer gwella yn fy Llythyr Diweddaru o ran yr Asesiad Corfforaethol a'r Adroddiad Gwella Blynyddol blaenorol. Crynhoir hynt yr Awdurdod o ran gweithredu'r rhain yn Atodiad 1.

## Cynigion pellach ar gyfer gwella

Caiff tri chynnig newydd ar gyfer gwella eu hawgrymu yn y llythyr hwn. Byddwn yn parhau i fonitro'r cynnydd a wneir gan yr Awdurdod o ran gweithredu'r cynigion a nodwyd yn fy adroddiadau a'm llythyrau blaenorol a chyflwyno adroddiadau arno.

| **Cynigion ar gyfer gwella** | |
|---|---|
| C1 | Datblygu Cynllun Ariannol Tymor Canolig newydd o 2013-14 ymlaen. |
| C2 | Dangos yn glir sut mae gofynion Deddf Cydraddoldeb 2010 wedi'u hystyried wrth bennu a monitro amcanion gwella drwy gynnal Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn ystod 2013-14. |
| C3 | Dylai adroddiadau penodol ar y cynnydd a wnaed o ran cyflawni Amcan Gwella dau, sy'n cysylltu ag adroddiadau cyllidebol presennol, fod wedi'u cwblhau erbyn diwedd 2013. |

### Diweddariadau i'r cynllun gwaith a'r amserlen

Bydd fy Nhîm ar gyfer yr Asesiad Gwella yn sicrhau bod yr Awdurdod yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am y trefniadau manwl ar gyfer cyflwyno fy ngwaith asesu yn ystod 2013-14. Mae'r cynllun gwaith a'r amserlen a gaiff eu diweddaru'n rheolaidd yn rhoi rhagor o fanylion am sut rydym yn bwriadu targedu adnoddau yn ystod yr asesiad eleni ac yn benodol sut y byddwn yn ychwanegu gwerth drwy ganolbwyntio ar feysydd neu wasanaethau a nodwyd ar y cyd.

Mae'r cynllun gwaith a'r amserlen yn ystyried fy ymgynghoriad â'r awdurdodau gwella ar fy nghynigion ar gyfer gwaith archwilio perfformiad 2013-14.

Rwyf yn ddiolchgar i'r Awdurdod am y ffordd y mae wedi helpu i hwyluso ein gwaith a gobeithiaf weld trefniadau hyd yn oed mwy effeithiol ac effeithlon yn datblygu dros amser. Rwyf yn parhau i fod yn ymrwymedig i ddarparu lefelau priodol o sicrwydd cyhoeddus gan eich helpu ar yr un pryd i liniaru'r risgiau anochel i wasanaethau ac atebolrwydd sy'n deillio o leihau adnoddau a newidiadau o ganlyniad i hynny.

Yn gywir



**HUW VAUGHAN THOMAS**

**ARCHWILYDD CYFFREDINOL CYMRU**

CC: Lesley Griffiths, Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau

Lisa Williams, Arweinydd Archwilio Perfformiad

# Atodiad 1

| Cynigion ar gyfer gwella | | Cynnydd |
|---|---|---|
| C1 | Parhau i roi cynigion blaenorol ar gyfer gwella ar waith er mwyn cryfhau amcanion gwella a mesurau a pherfformiad cysylltiedig a sicrhau bod adroddiadau yn canolbwyntio'n fwy ar ganlyniadau er mwyn gallu nodi a gwerthuso effaith ei weithgarwch ar gyfer ei gymuned. | Mae'r Awdurdodau wedi gwneud newidiadau i'r modd y mae'n cyflwyno adroddiadau yn erbyn cynnydd yn ystod 2012-13 y byddwn yn eu hystyried ac yn eu hadolygu fel rhan o'r archwiliad o'r Asesiad o Berfformiad yn ddiweddarach yn 2013. |
| C2 | Gweithredu meysydd ar gyfer gwella a nodwyd yn ein hadolygiad Rheoli Gwybodaeth. | Mae sawl maes ar gyfer gwella yn parhau i gael eu hasesu gan yr Awdurdod yng nghyd-destun blaenoriaethau eraill a rhaglen waith y Pwyllgor Materion Cenedlaethol a ddisgwylir yn y dyfodol. |
| C3 | Gweithredu meysydd ar gyfer gwella a nodwyd yn ein hadolygiad o'r defnydd o dechnoleg. | Mae'r Awdurdod wrthi'n datblygu strategaeth TGCh bum mlynedd newydd ac mae'n gwneud cynnydd o ran dogfennu, cyhoeddi a hyrwyddo safonau a pholisïau technoleg. |
| C4 | Mae pedwar maes allweddol lle y dylid rhoi mwy o bwyslais ar adolygu'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol er mwyn sicrhau:<br>• bod y staff yn cael eu cynnwys yn fwy ar draws yr Awdurdod;<br>• bod mwy o bwyslais ar ymgysylltu â'r gymuned;<br>• sicrhau y gwneir cymhariaeth ddigonol o berfformiad ag awdurdodau gwella eraill;<br>• rhoi mwy o ystyriaeth i drefniadau Llywodraethu mewn perthynas â phartneriaethau a gwaith comisiynu. | Mae'r Awdurdod wedi ymateb yn gadarnhaol ac yn gyflym i adborth cychwynnol ar ei drefniadau ar gyfer cynnal yr adolygiad o'i Ddatganiad Llywodraethu Blynyddol. Mae wedi ymdrin â phob maes a nodwyd yn ein hadborth i raddau helaeth ac wedi darparu dadansoddiad manylach o gydymffurfiaeth â'i God Llywodraethu Corfforol yn ystod adolygiad 2012-13. |

| Cynigion ar gyfer gwella | | Cynnydd |
|---|---|---|
| C5 | Parhau i ddatblygu prosesau corfforaethol er mwyn hyrwyddo'r gwaith o ymgysylltu â'r cyhoedd yn arbennig:<br>• nodi, diffinio a blaenoriaethu pa fath o weithgarwch ymgysylltu â'r cyhoedd sy'n hanfodol i'r Awdurdod, ei bartneriaid a'r cyhoedd a wasanaethir ganddo;<br>• datblygu dull mwy strategol, cydgysylltiedig a chynlluniedig o ymgysylltu â'r cyhoedd – er mwyn nodi meysydd, materion a phynciau sy'n peri risg; cael gafael ar adnoddau sydd eu hangen, lleihau nifer yr achosion o ddyblygu gwaith a sicrhau'r effaith a'r canlyniadau mwyaf;<br>• datblygu ffyrdd o fonitro, defnyddio a gwerthuso canlyniadau gweithgareddau ymgysylltu â'r cyhoedd yn ehangach a hysbysu'r cyhoedd am sut mae ei fewnbwn wedi dylanwadu ar yr hyn a wna'r Awdurdod; ymestyn y strategaeth gyfathrebu i gynnwys gweithgarwch ymgysylltu â'r cyhoedd sy'n briodol ac wedi'i gynllunio ac sy'n cyd-fynd ag amcanion gwella a blaenoriaethau allweddol yr Awdurdod. | |